



## **Gohebiaeth Gormodedd 2018-19**

### **LLYTHYR 1**

I Sylw: **Staff sy'n gyflogedig gan yr ysgol**

Dyddiad:

Annwyl .....

Yn dilyn eich cyfarfod gyda'r pennaeth lle amlinellwyd sefyllfa gyllidol debygol yr ysgol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y gallai diffyg cyllidol digonol arwain at sefyllfa o orfod lleihau lefelau staffio yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Nod y Llywodraethwyr yw cynnal cyflogaeth lawn er bydd y plant sydd yn ein gofal ac i geisio atal diswyddo. I'r perwyl hwn cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â Swyddogion Yr Awdurdod Addysg ac fe gysylltaf ymhellach â chwi pan fydd y Corff Llywodraethol wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater.

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## Gohebiaeth Gormodedd 2018-19

### LLYTHYR 2a

I Sylw: **Staff sy'n gyflogedig gan yr ysgol**

Dyddiad:

Annwyl .....

Ymhellach i'm llythyr diweddar atoch mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidol, gallaf gadarnhau bod Corff Llywodraethol yr ysgol wedi cadarnhau y bydd angen lleihau lefel staffio'r ysgol yn y flwyddyn gyllidol nesaf. Gwnaed y penderfyniad ar sail y wybodaeth gyllidol ddiweddaraf sydd i law, sydd yn awgrymu y bydd diffyg yng nghyllideb yr ysgol o oddeutu £.....

Mae'r is-banel cyllid wedi darganfod arbedion posib o dan y gwahanol benawdau yng nghyllideb yr ysgol. Mae'r rhain am gael effaith ar lefel y ddarpariaeth addysgol fydd yn bosib ei gynnal yn yr ysgol i'r dyfodol. Serch hyn nid yw'r arbedion hyn yn ymateb digonol i'r cyfanswm disgwylidig uchod ac mae gofyn ar yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff ystyried torri swyddi. Gall y toriadau fod ar y patrwm isod. (Noder: cyfwerth â swyddi llawn-amser)

Staff	Lefel y toriad ar gyflogaeth STAFF
Staff ATEGOL	xx awr
Cymorthyddion DOSBARTH	xx awr
Athrawon	ee, 0.5, 0.7

Pwysig yw nodi yn y fan hyn gan nad yw dyraniad terfynol yr ysgol ar gyfer y flwyddyn gyllidol nesaf eto i law, gall lefel y toriadau yma newid ond mae'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff o'r farn ei bod yn debygol bydd angen lleihau'r lefel staffio a bod angen delio â'r sefyllfa yn ddiymdroi.

Mae'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff yn ymwybodol o'r drefn gytunedig sy'n bodoli o fewn y Sir ar gyfer delio a sefyllfa o'r fath ac yn awyddus yn y lle cyntaf i gymryd pob cam rhesymol i osgoi diswyddiad(au) gorfodol.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Is-Banel Disgyblu a Diswyddo Staff yn eich gwahodd fel aelodau o staff yr ysgol i fynegi diddordeb mewn ymddeoliad cynnar neu weithio'n rhan amser. Pe bai gennych ddiddordeb rydym hefyd yn eich gwahodd i gysylltu ag Arweinydd Tîm Uned Cyflogau a Chontractau'r Awdurdod Addysg i gael arweiniad mewn perthynas â chyflogau, buddiannau a/neu bensiw. Bydd unrhyw drafodaeth o'r fath yn hollol gyfrinachol ac ni roddir unrhyw fanylion i'r pennaeth na'r llywodraethwyr. Wrth gwrs, ni fydd unrhyw fynegiant o ddiddordeb yn ymrwymo



aelod o staff i gymryd cam o'r fath a bydd cytuno ag unrhyw gais yn amodol ar ymgynghori'n llawn â'r aelod staff, ei (h)undeb â'r Awdurdod Addysg.

Os, yn dilyn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â chyflogau, buddiannau a/neu bensiwn gan yr Uned Cyflogau a Chontractau, ac yn dilyn ymgynghori gyda'ch undeb, rydych yn dymuno gwirfoddoli i *[gael eich diswyddo] [ymddeol yn gynnar] [weithio'n rhan amser]* bydd gofyn ichi anfon eich cynnig yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i sylw'r Pennaeth.

Rydym, fel is-banel wedi sicrhau bod yr undebau perthnasol wedi cael eu hysbysu o'r sefyllfa ac fe'ch cynghorir i gysylltu â nhw'n ddiymdroi er mwyn derbyn arweiniad ganddynt ar hyd y daith.

Yn ychwanegol at y gwahoddiad uchod, croesewir unrhyw awgrym neu gynnig arall a allai arwain at osgoi diswyddiadau gorfodol a gwahoddir chwi i gysylltu â mi neu â Swyddog Adnoddau Addysg am drafodaeth bellach.

Oni ellir datrys y sefyllfa drwy ddulliau gwirfoddol bwriedir dilyn y camau sirol cytunedig ac mae copïau o'r ddogfennaeth berthnasol ar gael trwy law'r pennaeth.

Rwyf wedi atodi'r ddogfennaeth isod i sylw'r undebau perthnasol gyda'r llythyr hwn:

Datganiad cyllidol diweddaraf posib (LRM / FMS) gan y Cymorthyddion SIMS sy'n gwasanaethu'r ysgolion cynradd neu gan y Swyddog Gweinyddol yn yr Ysgolion Uwchradd <b>sy'n dangos gwariant cyfredol yr ysgol yn erbyn pob pennawd yn y gyllideb</b>	
Dyraniad yr ysgol trwy fformiwla sy'n amlygu'r <b>lefelau staffio</b>	
Copi o'r CDY cyfredol	
Os yn berthnasol -Copi o Gynllun ôl-Arolwg neu wybodaeth am argymhellion yn dilyn arolwg yn ystod y tair blynedd diwethaf os nad ydynt yn rhan o'r CDY cyfredol neu wedi eu cyflawni.	
Copi o strwythur staffio'r ysgol gan nodi: <ul style="list-style-type: none"><li>- enwau'r staff sy'n gyfrifol am y gwahanol ddsbarthiadau</li><li>- cyfrifoldebau cwricwlaidd</li><li>- unrhyw lwfansau CAD.</li><li>- <b>natur cytundebau'r staff o ran eu bod yn barhaol / dros dro neu 'n llawn amser/ rhan amser (gan gyfeirio at yr oriau gwaith).</b></li><li>- Nifer y cymorthyddion a lefel eu cyflogaeth</li></ul>	
Enwau aelodau'r Corff Llywodraethol a gwybodaeth am aelodaeth holl is-banel	
Cofnodion cyfarfod cyntaf y Corff Llawn lle cytunwyd ar gylch gwaith yr is-banel Cyllid, Is-Banel Disgyblu a Diswyddo Staff ac Apêl ynghyd a chopi o'r cylch gorchwyl hwnnw	
Cofnodion cyfarfod unrhyw is-banel Cyllid neu Is-Banel Disgyblu a Diswyddo Staff, Cyfarfod Llawn neu is-banel arall lle thrafodwyd toriadau posib ar lefelau staffio'r Ysgol. Cofnodion unrhyw gyfarfodydd staff perthnasol	

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## Gohebiaeth Gormodedd 2018-19

### LLYTHYR 2b

**I Sylw:** Staff sy'n nodi dymuniad i ymddeol yn gynnar/ystryied am ddiswyddiad gwirfoddol ar sail gormodedd

**Dyddiad:**

Annwyl [enw athro]

Diolch am eich llythyr diweddar yn nodi eich dymuniad i *[weithio'n rhan amser] [ymddeol yn gynnar][gael eich ystryied am ddiswyddo gwirfoddol ar sail gormodedd]* o *[enw ysgol]*, ar sail y wybodaeth a dderbynioch gan yr Uned Cyflogau a Chontractau'r Awdurdod Addysg Lleol.

Oherwydd darpariaethau rhybudd yr Amodau Gwasanaeth ar gyfer Athrawon yng Nghymru a Lloegr (h.y. y Llyfr Bwrgwyn), ni fyddwn mewn sefyllfa i gadarnhau yn derfynol a oes sefyllfa o ormodedd ym mlwyddyn academiaidd gyfredol yr ysgol tan **1 Mehefin 2019**.

**Fodd bynnag, bydd eich cais yn cael ei ganiatáu os yw sefyllfa o ormodedd yn parhau mewn bodolaeth ar y 1af o Fehefin 2019.**

Bydd yr Uned Cyflogau a Chontractau'r Awdurdod yn llythyr a chwi ar neu o gwmpas **1 Mehefin 2019** gyda chadarnhad terfynol o'r penderfyniad mewn perthynas â'ch cais.

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## Gohebiaeth Gormodedd 2018-19

### LLYTHYR 3a

I Sylw: **Staff sy'n gyflogedig gan yr ysgol**

Dyddiad:

Annwyl .....

Ymhellach i'm llythyr diweddar atoch mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidol rwyf bellach mewn sefyllfa i fedru cadarnhau bod rhagolygon cyllidol mwyaf diweddar yr ysgol yn cadarnhau'r angen i leihau nifer y staff a gyflogir ar hyn o bryd.

Fel yr wyf eisoes wedi nodi mae'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff wedi ceisio osgoi gwneud toriadau gorfodol i lefelau staffio drwy wneud arbedion o dan y gwahanol penawdau yng nghyllideb yr ysgol. Cynigwyd cyfleoedd gwirfoddol i aelodau o'r staff ymddeol yn gynnar neu i weithio'n rhan amser ond ni lwyddwyd i wireddu hynny.

Amgaeaf gopi o'r dyraniad sy'n amlinellu'r sefyllfa gyllidol i'ch sylw er gwybodaeth.

Amlinellwyd effaith posib y diffygion cyllidol ar lefelau staffio'r ysgol yn fy llythyr blaenorol atoch. Bellach mae'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff wedi dod i'r casgliad bod angen torri swydd(i) fel a ganlyn yn yr ysgol:

Staff	Lefel y toriad ar gyflogaeth STAFF
Staff Ategol	
Cymorthyddion <b>Dosbarth</b>	
Athrawon	

Er mwyn gwireddu hyn bydd yr ysgol yn gweithredu yn unol â threfniadau cytunedig yr Awdurdod Addysg ac rwy'n **amgáu'r Meini Prawf** y bwriedir eu defnyddio i adnabod y swydd(i) sydd i'w torri.

Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, fe'ch gwahoddir i gyflwyno unrhyw sylwadau perthnasol i'r hyn a nodir yn y llythyr hwn a/neu'r meini prawf drwy eu cyfeirio i'm sylw **erbyn** ..... Mi fydd yr undebau sy'n cynrychioli ein staff yn derbyn copïau yn ogystal, edrychaf ymlaen at dderbyn eu sylwadau.



### AMSERLEN GWEITHREDU

Bwriedir cynnal cyfarfod

- **Enwebu aelod(au)** o'r staff i'w diswyddo oherwydd gormodedd ar sail y meini prawf a fabwysiadwyd ar .....
- unrhyw '**Wrandawriad Personol**' ar .....
- '**Apêl**' ar .....

Gan ddiolch am eich cydweithrediad

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## **Gohebiaeth Gormodedd 2018-19**

### **LLYTHYR 3b**

I Sylw: **Staff sy'n gyflogedig gan yr ysgol**

Dyddiad:

Annwyl .....

Ymhellach i'm llythyr diweddar atoch mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidol rwyf bellach mewn sefyllfa i fedru cadarnhau bod rhagolygon cyllidol fwyaf diweddar yr ysgol yn cadarnhau'r angen i leihau nifer y staff a gyflogir ar hyn o bryd.

Fel yr wyf eisoes wedi nodi mae'r llywodraethwyr wedi ceisio osgoi gwneud toriadau gorfodol i lefelau staffio drwy wneud arbedion o dan y gwahanol benawdau yng nghyllideb yr ysgol. Cynigwyd cyfleoedd gwirfoddol i aelodau o'r staff ymddeol yn gynnar neu i weithio'n rhan amser.

Rwyf yn falch o allu adrodd bod y llywodraethwyr wedi derbyn digon o gynigion gwirfoddol y gellir eu caniatáu gan staff i ymddeol neu i weithio'n rhan amser, fel na ragwelir y bydd angen parhau gyda'r drefn o wneud toriadau gorfodol ar lefel staffio'r ysgol ar sail y rhagolygon cyllidol fwyaf diweddar.

Gan nad ydy'r dyraniad cyllideb derfynol i law eto, a gan na ellir cadarnhau gwir sefyllfa staffio'r ysgol tan 31 Mai 2019, oherwydd gofynion rhybudd staff, mae sefyllfa o ormodedd yn parhau yn yr ysgol. Ond, oni bai bod y sefyllfa gyllidol yn newid yn sylweddol, ni fydd yr ysgol yn parhau gyda'r broses o doriadau gorfodol.

**Yn gywir**

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## Gohebiaeth Gormodedd 2018-19

### LLYTHYR 4

I Sylw: **Aelod o staff enwebedig**

Dyddiad:

Annwyl .....

Yn dilyn cyfarfod o'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff a gynhaliwyd ar \_\_\_\_\_, mae'n ofynnol i mi eich hysbysu eu bod wedi penderfynu bod yn rhaid terfynu eich cyflogaeth yn yr ysgol oherwydd gormodedd. *(neu leihau eich oriau dysgu i \_\_\_\_\_ ayb)*

**Daw hyn yn weithredol ar \_\_\_\_\_.**

Daeth y panel i'r penderfyniad hwn ar sail y meini prawf yr ymgynghorwyd arnynt ac rwyf yn amgáu crynodeb sy'n nodi sgoriau'r gwahanol aelodau o staff - heb eu henwi i'ch sylw.

Yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan yr ysgol mae gennych hawl, os dymunwch hynny, i gael **gwrandawriad personol** gerbron yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff a wnaeth y penderfyniad. Bydd y gwrandawriad yn rhoi cyfle i chi gyflwyno unrhyw wybodaeth bellach i'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff, a allai effeithio ar y penderfyniad. Os byddwch yn gofyn am wrandawriad, a'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff yn cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol, bydd gennych hawl i gyflwyno **apêl** i banel gwahanol o aelodau'r corff llywodraethol. Os byddwch yn dewis peidio â chael gwrandawriad personol, ni fydd hynny yn effeithio ar eich hawl i gyflwyno apêl. Bydd gennych hawl i gael cynrychiolydd neu gyfaill gyda chwi yn y gwrandawriad a/neu'r apêl.

Os ydych yn dymuno cael gwrandawriad personol gerbron yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff a wnaeth y penderfyniad, dylech fy hysbysu o hynny drwy lythyr **erbyn** ..... Os nad ydych yn dymuno cael gwrandawriad ond yn dymuno cyflwyno apêl, dylech fy hysbysu o hynny erbyn yr un dyddiad.

Nid yw derbyn llythyr o'r math hwn yn hawdd i neb ohonom. Nid yw'n adlewyrchiad priodol o'n gwerthfawrogiad o'ch gwaith dros sawl blwyddyn fel aelod ymroddgar o staff yr ysgol i'r plant hynny sydd wedi elwa o'ch gofal. Cam mewn proses yw hyn a dim mwy; proses ddiflas ond yn anffodus un angenrheidiol o dan yr amgylchiadau.

Buaswn yn eich cynghori i gysylltu gyda'ch undeb gan weithredu ar eu cyngor hwythau ac amgaeaf gopi o bamffled Gwasanaeth Cwnsela Medra i'ch sylw pe bai





angen hwn arnoch. Mae'r gwasanaeth yma'n wasanaeth cwnsela personol, proffesiynol a dwyieithog, sy'n gwbl gyfrinachol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## Gohebiaeth Gormodedd 2018-19

### LLYTHYR 5

I Sylw: **Aelod o staff enwebedig**

Dyddiad:

Annwyl .....

Yn dilyn eich gwrandawriad personol gerbron yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff a gynhaliwyd ar \_\_\_\_\_, mae'n ofynnol i mi eich hysbysu bod y panel wedi penderfynu cadw at ei benderfyniad gwreiddiol i derfynu eich swydd yn yr ysgol oherwydd gormodedd. (*neu leihau eich oriau dysgu i \_\_\_\_\_ ayb*) Daw hyn yn weithredol ar \_\_\_\_\_.

Yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan yr ysgol mae gennych hawl, os dymunwch, i gyflwyno apêl i banel gwahanol o aelodau'r corff llywodraethol. Bydd gennych hawl i gael cynrychiolydd neu gyfaill gyda chwi pan ydych yn cyflwyno'r apêl.

Os ydych yn dymuno cyflwyno apêl, dylech fy hysbysu o hynny **erbyn** \_\_\_\_\_. Gwneir pob ymdrech i gynnal yr apêl o fewn **10 diwrnod gwaith** o'r dyddiad yr ydych yn derbyn yr hysbysiad yma.

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**



## Gohebiaeth Gormodedd 2018-19

### LLYTHYR 6

I Sylw: **Aelod o staff enwebedig**

Dyddiad:

Annwyl

Yn dilyn eich gwrandawriad apêl a gynhaliwyd ar \_\_\_\_\_, mae'n ofynnol i mi eich hysbysu bod yr Is-banel Apêl Disgyblu a Diswyddo Staff wedi penderfynu cadw at ei benderfyniad gwreiddiol i derfynu eich swydd yn yr ysgol oherwydd gormodedd. *(neu leihau eich oriau dysgu i .....awr ayb)* Daw hyn yn weithredol ar .....

Yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan yr ysgol mi fydd Clerc y Llywodraethwyr yn hysbysu'r Adran Addysg o'r penderfyniad. Bydd y Pennaeth Addysg yn gohebu â chwi o fewn 14 diwrnod gan roi rhybudd diswyddo o fewn y cyfnod statudol yn unol â'r cytundebau gwaith priodol.

Mewn amgylchiadau o'r fath, nod yr Awdurdod Addysg yw ceisio cynnal cyflogaeth lawn ac i geisio atal diswyddo lle bo hynny'n ymarferol bosib. Byddwn, felly, yn trefnu eich cyfarfod er mwyn cynnal trafodaethau ynglŷn â'r nifer o opsiynau sydd ar gael i geisio cyflogaeth amgen ar eich cyfer.

Rwyf yn ymwybodol eich bod wedi derbyn cymorth oddi wrth eich undeb ar hyd y daith ac wedi medru troi at Wasanaeth Cwnsela Medra yn ôl yr angen.

Wrth gloi hoffwn fel Corff nodi ein diolch i chwi am eich cyfraniad gwerthfawr i addysg disgyblion yn yr ysgol hon.

Mi fydd swyddog yn cysylltu â chwi maes o law.

Yn gywir

**Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo Staff**